OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 Rhif 652 (Cy. 144) (C. 36)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Drosiannol) 2022

*Gwnaed - - - - 13 Mehefin 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 84(2), (3) a (4) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Drosiannol) 2022.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "addysg feithrin" ("*nursery education*") yw addysg a ddarperir i blant neu ddisgyblion sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol—

(i) mewn ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir, neu

(ii) gan ddarparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;

mae i "anghenion addysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "special educational needs" yn adran 312(1) o Ddeddf 1996(**2**);

mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 2 o Ddeddf 2018;

ystyr "blwyddyn 1" ("*year 1*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 6 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 2" ("*year 2*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 7 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 3" ("*year 3*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 8 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 4" ("*year 4*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 9 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 5" ("*year 5*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 10 oed ynddo;

(**1**) 2021 dsc 4.
(**2**) Diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

ystyr "blwyddyn 6" ("*year 6*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 11 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 7" ("*year 7*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 12 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 8" ("*year 8*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 13 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 9" ("*year 9*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 14 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 10" ("*year 10*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 15 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 11" ("*year 11*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 16 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 12" ("*year 12*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 17 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn 13" ("*year 13*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 18 oed ynddo;

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*") yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Medi;

ystyr "blwyddyn derbyn" ("*reception year*") yw grŵp blwyddyn y mae'r rhan fwyaf o'r plant neu'r disgyblion yn cyrraedd 5 oed ynddo;

ystyr "cynllun datblygu unigol" ("*individual development plan*") yw cynllun a lunnir ac a gynhelir o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2018;

mae i "darpariaeth anghenion addysgol arbennig" yr ystyr a roddir i "special educational needs provision" yn adran 312(4) o Ddeddf 1996(**3**);

mae i "darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir" ("*provider of funded non-maintained nursery education*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 80(2)(a) o Ddeddf 2021;

ystyr "datganiad anghenion addysgol arbennig" ("*statement of special educational needs*") yw datganiad o fewn ystyr adran 324 o Ddeddf 1996(**4**);

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**5**);

ystyr "Deddf 2018" ("*the 2018 Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**6**);

ystyr "Deddf 2021" ("*the 2021 Act*") yw Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021;

mae i "disgybl" yr ystyr a roddir i "pupil" yn adran 3 o Ddeddf 1996(**7**);

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant neu ddisgyblion mewn lleoliad y bydd y rhan fwyaf ohonynt, mewn blwyddyn academaidd benodol, yn cyrraedd yr un oedran;

ystyr "lleoliad" ("*setting*") yw—

(a) ysgol a gynhelir,

---

(**3**) Diwygiwyd gan O.S. 2010/1158.

(**4**) Mewnosodwyd is-adran (4A) gan adran 9 o Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (p. 10). Diwygiwyd is-adran (5) gan baragraff 77(a) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) a chan baragraff 43 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). Mewnosodwyd is-adran (5A) gan baragraff 77(b) o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Diddymwyd adran 324 gan baragraff 4(1) a (9) o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Nid yw'r diddymiad hwnnw mewn grym yn llawn eto.

(**5**) 1996 p. 56.

(**6**) 2018 dccc 2.

(**7**) Diwygiwyd is-adran (1) gan adran 57(1) o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44) a pharagraff 9 o Atodlen 7 iddi a diwygiwyd is-adran (1) ac (1A) ymhellach gan adran 215(1) o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32) a pharagraff 34 o Atodlen 21 iddi.

(b) darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir;

(c) uned cyfeirio disgyblion, a

(d) darpariaeth addysgu a dysgu ar gyfer plentyn ac eithrio mewn uned cyfeirio disgyblion yn rhinwedd trefniadau a wneir o dan adran 19A o Ddeddf 1996;

mae i "plentyn" yr ystyr a roddir i "child" yn adran 579(1) o Ddeddf 1996;

mae i "uned cyfeirio disgyblion" ("*pupil referral unit*") yr ystyr a roddir iddo yn adran 81(1) o Ddeddf 2021;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw ysgol a gynhelir o fewn ystyr adran 79(1)(a) a (b) o Ddeddf 2021.

**Darpariaeth drosiannol**

**2.** Hyd nes bod Rhan 4 o Ddeddf 1996 wedi ei diddymu gan Ddeddf 2018, mae cyfeiriadau yn Rhan 2 o Ddeddf 2021—

(a) at "darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol" yn cael eu trin fel pe baent yn cynnwys "darpariaeth addysgol arbennig";

(b) at "anghenion dysgu ychwanegol" yn cael eu trin fel pe baent yn cynnwys "anghenion addysgol arbennig"; ac

(c) at "cynllun datblygu unigol" yn cael eu trin fel pe baent yn cynnwys "datganiad o anghenion addysgol arbennig".

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 14 Mehefin 2022: yn rhannol**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 14 Mehefin 2022—

(a) adrannau 42 a 43 at ddiben gwneud rheoliadau o dan adran 42, a

(b) adran 69 at ddiben gwneud rheoliadau o dan yr adran honno.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2022: yn llawn**

**4.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Medi 2022—

(a) adrannau 6 i 8 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym,

(b) adrannau 42 a 43 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym,

(c) adrannau 56 a 57 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym,

(d) adrannau 63 i 67,

(e) adran 69 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, ac

(f) adrannau 70 a 71.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2022: yn rhannol**

**5.**—(1) Daw'r darpariaethau yn Neddf 2021 ym mharagraff (2) i rym ar 1 Medi 2022 ar gyfer plentyn neu ddisgybl—

(a) y darperir addysg feithrin ar ei gyfer,

(b) mewn blwyddyn derbyn,

(c) ym mlynyddoedd 1 i 6, a

(d) ym mlwyddyn 7 yn yr ysgolion a gynhelir hynny a'r unedau cyfeirio disgyblion hynny a nodir yn yr Atodlen.

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) adrannau 9 i 24(1), (2), (3) a (4),

(b) adrannau 25 i 29,

(c) adrannau 34 i 41,

(d) adrannau 44 i 55, ac

(e) Atodlen 1.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2023: yn rhannol**

**6.**—(1) Daw'r darpariaethau yn Neddf 2021 ym mharagraff (2) i rym ar 1 Medi 2023 ar gyfer plentyn neu ddisgybl—

(a) ym mlwyddyn 7 ar gyfer pob lleoliad arall nad yw wedi ei restru yn yr Atodlen (Rhestr Blwyddyn 7), a

(b) ym mlwyddyn 8.

(2) Y darpariaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

(a) adrannau 9 i 24(1), (2), (3) a (4),

(b) adrannau 25 i 29,

(c) adrannau 34 i 41,

(d) adrannau 44 i 55, ac

(e) Atodlen 1.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2024: yn rhannol**

**7.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Medi 2024 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlwyddyn 9—

(a) adrannau 9 i 24(1), (2), (3) a (4),

(b) adrannau 25 i 29,

(c) adrannau 34 i 41,

(d) adran 68,

(e) adrannau 44 i 55, ac

(f) Atodlen 1.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2025: yn rhannol**

**8.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Medi 2025 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlwyddyn 10—

(a) adrannau 9 i 41,

(b) adrannau 44 i 55, ac

(c) Atodlen 1.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2026: yn llawn**

**9.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Medi 2026 i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym—

(a) adrannau 9 i 41,

(b) adrannau 44 i 55,

(c) adrannau 58 i 62,

(d) adran 68, ac

(e) Atodlen 1.

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

13 Mehefin 2022

## YR ATODLEN

erthygl 5

Rhestr Blwyddyn 7

**1.** Yr ysgolion a'r unedau cyfeirio disgyblion y cyfeirir atynt yn erthygl 4(1)(d) o'r Gorchymyn hwn yw—

| *Enw'r Ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion* | *Rhif yr Ysgol a Rhif yr Uned Cyfeirio Disgyblion* |
|---|---|
| **Cyngor Bro Morgannwg** | |
| Ysgol Llanilltud Fawr | 6734060 |
| Ysgol Stanwell | 6735400 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant | 6734612 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** | |
| Ysgol Arbennig Pen-y-Cwm | 6777011 |
| Ysgol Gyfun Tredegar | 6774061 |
| Ysgol Sylfaenol Brynmawr | 6775401 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** | |
| Canolfan Ddysgu Glanynant | 6761104 |
| Lewis Girls' School | 6764077 |
| Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod | 6767011 |
| Ysgol Gyfun Gy6munedol Rhisga | 6764068 |
| Ysgol Gyfun Heolddu | 6764073 |
| Ysgol Gymunedol Sant Cenydd | 6764065 |
| Ysgol Idris Davies 3-18 | 6765500 |
| Ysgol Lewis Pengam | 6764075 |
| Ysgol Trecelyn | 6764031 |
| Ysgol Uwchradd Bedwas | 6764093 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd** | |
| Yr Ysgol John Frost | 6804020 |
| Ysgol Bassaleg | 6804030 |
| Ysgol Bryn Derw | 6807004 |
| Ysgol Gyfun Caerllion | 6804059 |
| Ysgol Gyfun Gwent Is Coed | 6804060 |
| Ysgol Maes Ebbw | 6807002 |
| Ysgol Sant Julian | 6804003 |
| Ysgol Uwchradd Casnewydd | 6804025 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant | 6804602 |
| Ysgol Uwchradd Llysweri | 6804026 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** | |

| *Enw'r Ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion* | *Rhif yr Ysgol a Rhif yr Uned Cyfeirio Disgyblion* |
|---|---|
| Canolfan Addysg Conwy | 6621109 |
| Ysgol Aberconwy | 6624023 |
| Ysgol Dyffryn Conwy | 6624035 |
| Ysgol Eirias | 6625402 |
| Ysgol John Bright | 6624022 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful** | |
| Ysgol Uwchradd Afon Taf | 6754011 |
| Ysgol Uwchradd Cyfarthfa | 6754013 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley | 6754600 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** | |
| Coleg Cymunedol y Dderwen | 6724086 |
| Ysgol Bryn Castell | 6727012 |
| Ysgol Brynteg | 6724078 |
| Ysgol Gyfun Cynffig | 6724059 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd | 6724085 |
| Ysgol Gyfun Pencoed | 6724076 |
| Ysgol Heronsbridge | 6727003 |
| Ysgol Maesteg | 6724071 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** | |
| Canolfan Addysg Tŷ Gwyn | 6741106 |
| Ysgol Garth Olwg | 6745504 |
| Ysgol Gatholig Cardinal Newman | 6744602 |
| Ysgol Gyfun Bryn Celynnog | 6744019 |
| Ysgol Gyfun Rhydywaun | 6744105 |
| Ysgol Gymunedol Tonyrefail | 6745503 |
| Ysgol Hen Felin | 6747011 |
| Ysgol Arbennig Park Lane | 6747008 |
| Ysgol Llanhari | 6745500 |
| Ysgol Maesgwyn | 6747006 |
| Ysgol Y Pant | 6744096 |
| Ysgol Uwchradd Pontypridd | 6744022 |
| **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** | |
| Uned Cyfeirio Disgyblion Torfaen | 6781100 |
| Ysgol Abersychan | 6784070 |
| Ysgol Croesyceiliog | 6784051 |

| *Enw'r Ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion* | *Rhif yr Ysgol a Rhif yr Uned Cyfeirio Disgyblion* |
|---|---|
| Ysgol Crownbridge | 6787012 |
| Ysgol Gorllewin Mynwy | 6784072 |
| **Cyngor Castell-nedd Port Talbot** | |
| Ysgol Gyfun Cefn Saeson | 6714064 |
| **Cyngor Dinas a Sir Caerdydd** | |
| Ysgol Arbennig Greenhill | 6817001 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr | 6814072 |
| Ysgol Gyfun Radur | 6814070 |
| Ysgol Uwchradd Caerdydd | 6814039 |
| Ysgol Uwchradd Cathays | 6814054 |
| Ysgol Uwchradd y Dwyrain | 6814076 |
| Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf | 6814608 |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | 6814042 |
| Ysgol Uwchradd Gatholig Illtud Sant | 6814600 |
| Ysgol Uwchradd Llanishen | 6814051 |
| Ysgol Uwchradd Willows | 6814041 |
| **Cyngor Gwynedd** | |
| Ysgol Bro Idris | 6615500 |
| Ysgol Brynrefail | 6614004 |
| Ysgol Eifionydd | 6614009 |
| Ysgol Friars | 6614036 |
| Ysgol Godre'r Berwyn | 6615501 |
| Ysgol y Moelwyn | 6614031 |
| **Cyngor Sir Caerfyrddin** | |
| Ysgol Bryngwyn | 6694054 |
| Ysgol Glan y Môr | 6694053 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin | 6694056 |
| Ysgol Gyfun y Strade | 6694052 |
| **Cyngor Sir Ceredigion** | |
| Ysgol Henry Richard | 6675501 |
| **Cyngor Sir Ddinbych** | |
| Ysgol Uwchradd Glan Clwyd | 6634020 |
| **Cyngor Sir Fynwy** | |
| Ysgol Brenin Harri'r VIII | 6794064 |
| Ysgol Cas-gwent | 6794065 |

| *Enw'r Ysgol a'r Uned Cyfeirio Disgyblion* | *Rhif yr Ysgol a Rhif yr Uned Cyfeirio Disgyblion* |
|---|---|
| Ysgol Cil-y-Coed | 6794066 |
| Ysgol Gyfun Trefynwy | 6794060 |
| **Cyngor Sir Penfro** | |
| Ysgol Bro Preseli | 6684064 |
| Ysgol Caer Elen | 6685500 |
| **Cyngor Sir Powys** | |
| Ysgol Bro Hyddgen | 6665500 |
| Ysgol Llanfyllin | 6665501 |
| Ysgol Maesydderwen | 6664021 |
| Ysgol Penmaes | 6667004 |
| Ysgol Uwchradd Crucywel | 6664024 |
| Ysgol Uwchradd Llanidloes | 6664002 |
| **Dinas a Sir Abertawe** | |
| Ysgol yr Esgob Gore | 6704044 |
| Ysgol Gatholig Esgob Vaughan | 6704600 |
| Ysgol Gyfun Gŵyr | 6704074 |
| Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe | 6704078 |
| Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | 6704069 |
| Ysgol Gyfun Pontarddulais | 6704072 |
| Ysgol Gyfun Treforys | 6704033 |
| Ysgol Gymunedol Dylan Thomas | 6704076 |
| Ysgol Pen y Bryn | 6707000 |

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ("Deddf 2021").

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth drosiannol ar gyfer disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig ac nid cynllun datblygu unigol (gweler erthygl 1 am y diffiniad o "anghenion addysgol arbennig" a "cynllun datblygu unigol").

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn erthygl 3 yn dod i rym ar 14 Mehefin 2022 ond dim ond at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 42 a 69 o Ddeddf 2021.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn yr erthygl honno yn dod i rym yn llawn ar 1 Medi 2022.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn yr erthygl honno yn dod i rym ar 1 Medi 2022 ar gyfer plentyn neu ddisgybl—

(a) y darperir addysg feithrin ar ei gyfer,

(b) mewn blwyddyn derbyn,

(c) ym mlynyddoedd 1 i 6, a

(d) ym mlwyddyn 7 yn yr ysgolion a gynhelir hynny a'r unedau cyfeirio disgyblion hynny a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn yr erthygl honno yn dod i rym ar 1 Medi 2023 ar gyfer plentyn neu ddisgybl—

(a) ym mlwyddyn 7, a

(b) ym mlwyddyn 8.

Mae erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn yr erthygl honno yn dod i rym ar 1 Medi 2024 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlwyddyn 9.

Mae erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn yr erthygl honno yn dod i rym ar 1 Medi 2025 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlwyddyn 10.

Mae erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y darpariaethau a restrir yn yr erthygl honno yn dod i rym ar 1 Medi 2026 ar gyfer plentyn neu ddisgybl ym mlynyddoedd 11 i 13.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adrannau 1 i 5 | 29 Medi 2021 | O.S. 2021/1069 (Cy. 252) (C. 61) |
| Adrannau 6 a 7 (yn rhannol) | 29 Medi 2021 | O.S. 2021/1069 (Cy. 252) (C. 61) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 23 Tachwedd 2021 | O.S. 2021/1069 (Cy. 252) (C. 61) |
| Adran 56(1) (yn rhannol) | 11 Ionawr 2022 | O.S. 2022/12 (Cy. 6) (C. 1) |
| Adran 57(1) (yn rhannol) | 11 Ionawr 2022 | O.S. 2022/12 (Cy. 6) (C. 1) |
| Adran 56 (yn llawn) | 1 Medi 2022 | O.S. 2022/12 (Cy. 6) (C. 1) |
| Adran 57 (yn llawn) | 1 Medi 2022 | O.S. 2022/12 (Cy. 6) (C. 1) |